**RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN ...…....** **AGENDA ITEM No ..…….**

## *CYNGOR SIR YNYS MÔN/*
## *THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL*

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I/REPORT TO** | **PWYLLGOR GWAITH/ THE EXECUTIVE** |
| **DYDDIAD/DATE:** | **7 Rhagfyr 2010 7 December 2010** |
| **PWNC/SUBJECT:** | **Cydweithio a gwarchod gwasanaethau rheng flaen Partnership Working and protecting front line services** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO/ PORTFOLIO HOLDER(S):** | **Arweinydd/Leader** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL/ LEAD OFFICER(S):** | **Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro Interim Managing Director** |
| **SWYDDOG CYSWLLT/ CONTACT OFFICER:** | **Pennaeth Gwasanaeth – Polisi Head of Service - Policy (Ffôn/Tel: 2108 )** |

**1. Cadarnhewch nature yr adroddiad os gwelwch yn dda trwy roi tic yn un o'r blychau isod / Please confirm the nature of the report by ticking one of the following boxes:-**

| | |
|---|---|
| Er gwybodaeth / For information | |
| Gweithredol / Operational | |
| Strategol / Strategic | X |

**2. Rheswm/Rhesymau pam fod angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith / Reason/s why a decision required from the Executive**

Cyflwyno gohebiaeth gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ynghylch y potensial i ddatblygu cydweithio pellach rhwng yr Awdurdod a Chyngor Gwynedd a chomisiynu astudiaeth.

Hefyd adrodd ar raglenni gwaith Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru.

To report on correspondence received from the Minister for Social Justice and Local Government on the potential for greater collaborative arrangements between Anglesey and Gwynedd and the commissioning of a scoping study.

Also to report on the Work programme of the North Wales Regional Partnership Board.

**3. Crynodeb o'r adroddiad / Report summary**

Rhoddir ystyriaeth i gyd-destun trefniadau cydweithio gyda Chyngor Gwynedd fel a nodir yn yr ohebiaeth gan y Cynulliad. Yn ogystal, cyflwynir gwybodaeth ynghylch gwaith y pedwar Bwrdd Rhaglen a sefydlwyd ar lefel Gogledd Cymru.

The report refers to the context and basis for collaborative working with Gwynedd Council as set out in correspondence from WAG. In addition, information is summarised on the work of the four Programme Boards established on a pan North Wales basis.

**4. Argymhelliad/Argymhellion a'r rhesymau / Recommendation/s and reasons**

Derbyn yr argymhellion/penderfyniad

To accept recommendations/resolution

**1. Opsiynau eraill a'r rheswm/rhesymau dros eu gwrthod / Other options and reason/s for rejection**

**6. Ymgynghori / Consultation**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **6.1** | Cyllid/Adran 151<br>Finance/Section 151 | X | do/yes | | naddo/no | | |
| **6.2** | Swyddog Cyfreithiol/Monitro<br>Legal/Monitoring Officer | X | do/yes | | naddo/no | | |
| **6.3** | Adnoddau Dynol<br>Human Resources | | do/yes | | naddo/no | | amherth / n/a |
| **6.4** | Gwasanaethau Eiddo<br>Property Services | | do/yes | | naddo/no | | amherth / n/a |

**6.5** Uned Gyfathrebu
Communications Unit

| | | | |
|---|---|---|---|
| x | do/yes | | naddo/no |

**6.6** Rhai eraill yr ymgynghorwyd â nhw (yn cynnwys Aelodau)
Others consulted (including Members)

Arweinydd/Leader

**7. Unrhyw faterion Fframwaith Polisi / Any Policy Framework issues**

**8. Papurau cefndirol / Background papers**

**Rhagarweiniad**

Mae pwysau ariannol a'r angen i gael mwy o arbedion/gwell effeithlonrwydd yn her i bob awdurdod lleol. Mae hyn wedi arwain at ganolbwyntio mwy ar wneud cynnydd sydyn i ddatblygu trefniadau cydweithredu ac arbedion maint. Yn wir mae'r Gweinidog ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi dwyn sylw'n ddiweddar at yr angen i bob awdurdod lleol symud yn gyflymach a gwneud cynnydd sydyn ar faterion cydweithredu. Yn y ffordd hon, gellir sicrhau mwy o arbedion a gwneud gwell defnydd o adnoddau tra'n gwarchod gwasanaethau rheng flaen hanfodol.

Ers iddo gael i sefydlu, gall y Cyngor fod yn falch o'i hanes o weithio mewn partneriaeth e.e. gwasanaethau gwella ysgolion a gwasanaethau cefnogaeth, ac mae Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru yn gyrru'r rhaglen gydweithredu yn ei blaen. Gwneir hyn ar ddwy lefel - yn isranbarthol e.e. sefydlu Tîm Polisi Cynllunio ar y Cyd gyda Gwynedd a rhanbarthol e.e. Rheoli Gwastraff a Teleofal.

**Yr Hinsawdd Economaidd Gyfredol**

Trafodwyd y sialensiau ariannol y mae'r Cyngor yn ei hwynebu mewn seminar yn ddiweddar a alwyd gan y Bwrdd Adfer ar gyfer holl aelodau'r awdurdod. Mae'n amlwg o'r trafodaethau hynny bod aelodau yn cydnabod pwysigrwydd cydweithredu i leihau effaith y pwysau ariannol i'r eithaf ac i warchod gwasanaethau.

Ar lefel ehangach ond cysylltiedig mae gwella gwasanaethau, effeithlonrwydd a sicrhau arbedion ariannol wrth wraidd y weledigaeth a fabwysiadwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i weithio ar y cyd ac mae hynny'n cael ei gefnogi gan y 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru. Ar y sail hon, sefydlwyd 4 o Fyrddau Rhaglen i yrru trefniadau cydweithredol yn ei blaen a gyda chefnogaeth Aelodau Portffolio a Phrif Swyddogion:

- Addysg
- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Yr Amgylchedd a Rheoleiddio
- Gwasanaethau Cefnogol

Mae Cylch Gorchwyl pob Bwrdd Rhaglen ynghlwm er gwybodaeth (Atodiad I). Yn ychwanegol at hyn, mae amlinelliad o'r prif feysydd y canolbwyntir arnynt ar hyn o bryd ynghlwm yn Atodiad II a fydd yn cael ei sgopio a'i ddatblygu ymhellach.

Wrth symud ymlaen, mae'r rhain yn weithdrefnau darparu pwysig ar gyfer y Cyngor sy'n darparu ffyrdd newydd o weithio, gwneud y defnydd gorau o adnoddau a sgôp ar gyfer integreiddio gwasanaethau. Fodd bynnag, mae angen dwyn y Cyngor yn ei gyfanrwydd i mewn i'r broses a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ac arwyddocâd Cydweithredu yng nghyd-destun y sialensiau y mae'n ei wynebu mewn perthynas â'r gyllideb. Awgrymir cynnal gweithdy ar gyfer aelodau yn y Flwyddyn Newydd ar y mater hwn gan ddatblygu ymhellach y

gwaith a wnaed mewn gweithdy a drefnwyd yn ddiweddar gan y Bwrdd Adfer ar sialensiau sy'n wynebu'r Cyngor ac atborth cadarnhaol gan Aelodau ar symud materion yn eu blaenau.

Bydd amserlenni gwahanol ar gyfer materion integreiddio gwasanaethau wrth weithio ar draws y 6 awdurdod a sicrhau manteision. Yn ddiweddar, mae'r Gweinidog wedi cyfarfod gydag Arweinyddion Grwpiau yn Ynys Môn a Gwynedd i drafod y potensial ar gyfer mwy o gydweithredu rhwng y ddau Gyngor a mwy o gydweithredu strategol hefyd. Ar y sail hon mae LICC yn bwriadu comisiynu astudiaeth sgopio a fydd yn edrych ar opsiynau ar gyfer cydweithredu'n fanylach. Mae'r manylion mewn llythyr sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn dyddiedig 30 Tachwedd 2010 (Atodiad III). Adroddir ar ganlyniad yr astudiaeth hon i'r ddau Gyngor yn Chwefror 2011.

Mae nifer o bwyntiau pwysig o egwyddor wedi eu nodi yn llythyr y Gweinidog:

- y pwyslais ar gydweithredu "i gyflawni arbedion a diogelu gwasanaethau rheng flaen.
- "diogelu ymreolaeth ddemocrataidd y ddau Gyngor"
- nid ffordd o ymateb i ymyrraeth LICC yw hon ac nid yw'n digwydd oherwydd bod "Ynys Môn" wedi methu a bod eraill am "gymryd drosodd"
- "rhaid i gydweithredu o'r fath fod yn gyfystyr â phartneriaeth gwbl gyfartal"

Mae hyn yn rhoddi i'r Cyngor y cyfle i fod ar flaen y gad o safbwynt blaengaredd ac ymateb i'r sialensiau y soniodd y Gweinidog amdanynt wrth yr holl Awdurdodau Lleol a sicrhau y gellir symud ymlaen yn gyflym i gydweithio yn hytrach nag ad-drefnu Llywodraeth Leol yn gyffredinol.

Mae'r mater cyfan yn un y mae'n rhaid i'r Cyngor Sir ei ystyried yn ofalus gan gynnwys yr angen i roi sylw i gyfleon a risgiau.

**Argymhelliad:**

**i) Cefnogi mewn egwyddor yr astudiaeth ar y cyd fel y nodir hynny yn llythyr y Gweinidog ac argymell bod hyn yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Cyngor i'w ystyried.**

**ii) Ar yr amod bod y Cyngor yn cymeradwyo'r astudiaeth ar y cyd, sefydlu grwp cydranddeiliaid o Aelodau i oruchwylio cynnydd a gofyn hefyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fonitro cynnydd.**

**Penderfyniadau :**

**(iii) Trefnu gweithdy ar gyfer yr aelodau ar wynebu'r pwysau ariannol tymor hir a'r cyfleon ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.**

**Carl Sargeant AC/AM**
**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**
**Minister for Social Justice and Local Government**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MB/CS/468/10

Y Cynghorydd Clive McGregor
Arweinydd
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

30 Tachwedd 2010

Dear Clive

Yn ein cyfarfod defnyddiol a phositif iawn yr wythnos ddiwethaf gwnaethom drafod posibilrwydd rhagor o gydweithredu strategol rhwng Ynys Môn a Gwynedd. Cefais gyfarfod yr un mor fuddiol ag aelodau yng Nghyngor Gwynedd yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

Mae'n amlwg fod cryn barodrwydd mewn egwyddor ar draws y ddau gyngor i fwrw ati, a chynnal astudiaeth gwmpasu a fydd yn archwilio'r opsiynau o ran cydweithredu mewn rhagor o fanylder. Rwy'n gefnogol iawn i'r bwriad hwn. Fel y cytunwyd, rwyf wedi paratoi cyfres o egwyddorion sy'n ceisio diffinio amcanion cyffredinol y gwaith hwn. Mae'n pwysleisio'n benodol yr angen i gydweithredu er mwyn cyflawni arbedion a diogelu gwasanaethau rheng flaen, a hefyd ddiogelu ymreolaeth ddemocrataidd y ddau gyngor.

Yn fwriadol, nid yw'r egwyddorion yn cyfeirio at fy ymyrraeth bresennol yn Ynys Môn. Mae'n bwysig pwysleisio nad ydym yn symud i'r cyfeiriad hwn oherwydd bod Ynys Môn wedi 'methu' a bod eraill yn ei 'gymryd drosodd'. I'r gwrthwyneb, mae'n rhaid i gydweithredu o'r fath fod yn gyfystyr â phartneriaeth gwbl gyfartal. Os gallwch chi a'ch cydweithwyr ddangos yr arweiniad a'r aeddfedrwydd gwleidyddol sydd ei angen er mwyn sicrhau bod hyn yn llwyddo bydd yn dystiolaeth bendant o'r modd y mae'r Cyngor wedi datblygu dros y 18 mis diwethaf.

Credaf fod y ddogfen hon yn adlewyrchu'n deg y safbwyntiau y mae aelodau'r ddau cyngor wedi'u mynegi i mi. Fel y gallwn symud ymlaen, a fyddech cystal â cheisio cytundeb y Cyngor i'r egwyddorion sydd ynghlwm cyn y Nadolig lle y bo'n bosibl. Byddaf yna'n trefnu bod yr astudiaeth yn cael ei chomisiynu. Llywodraeth y Cynulliad fydd yn ariannu'r astudiaeth hon.

Byddaf yn ysgrifennu llythyr tebyg at Dyfed Edwards, ac yn anfon copi o'r llythyr hwn at David Bowles, Elan Closs Stephens a Steve Thomas.

Yn gywir

[redacted]

**Carl Sargeant AC**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8522
Correspondence.Carl.Sargeant@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Cydweithredu Strategol rhwng Ynys Môn a Gwynedd**

**Egwyddorion yr Astudiaeth Gwmpasu**

Bydd pob awdurdod lleol yn wynebu heriau difrifol dros y blynyddoedd nesaf yn sgil y pwysau dwys ar gyllidebau'r sector cyhoeddus a'r goblygiadau o safbwynt darparu gwasanaethau. Mae'n bosibl mai un o'r ffyrdd mwyaf buddiol o fynd i'r afael â'r heriau hynny, gan amddiffyn gwasanaethau rheng flaen, yw i awdurdodau gydweithredu fwyfwy â'i gilydd.

Mae awdurdodau lleol eisoes yn cydweithredu â'i gilydd yn rheolaidd. Er enghraifft, mae Gwynedd ac Ynys Môn wedi bod yn cynnal gwasanaeth cymorth addysg ar y cyd ers nifer o flynyddoedd, a newydd ymrwymo i sefydlu uned cynllunio strategol unedig. Fodd bynnag, er bod yr enghreifftiau hynny'n rhai cadarnhaol, ni fyddan nhw nac enghreifftiau tebyg yn sicrhau'r math o arbedion y bydd angen i bob awdurdod eu gwneud yn y tymor byr a'r tymor canolig. Mae hynny'n golygu bod angen integreiddio gwasanaethau pwysig a'u trefniadau rheoli yn llwyr. Mae sawl cyngor yn Lloegr a'r Alban eisoes wedi cydnabod hynny ac wedi mabwysiadu'r dull gweithredu hwn.

Yn dilyn trafodaethau rhwng y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac aelodau ac uwch-reolwyr y ddau gyngor, credir bod budd mewn ymchwilio'n fanwl i botensial a phosibilrwydd integreiddio gwasanaethau yn y fath fodd. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r egwyddorion a'r telerau a fydd yn sail i astudiaeth gwmpasu o'r fath.

**Cyffredinol**

1. Nod yr astudiaeth gwmpasu hon yw ystyried i ba raddau y gallai integreiddio gwasanaethau pwysig sicrhau arbedion effeithlonrwydd i'r ddau gyngor, gan amddiffyn a gwella gwasanaethau rheng flaen i ddinasyddion a chymunedau.

2. Mae'r ddau gyngor wedi ymrwymo i'r astudiaeth gwmpasu hon, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ymrwymo i gynorthwyo'r astudiaeth. Bydd pob corff yn ystyried canfyddiadau'r astudiaeth yn ôl eu rhinweddau. Ond, ar hyn o bryd, nid oes yr un ohonynt wedi ymrwymo i dderbyn y canfyddiadau nac i'w rhoi ar waith.

**Democratiaeth**

3. Nid yw'r astudiaeth yn ymwneud ag uno na diddymu awdurdodau. Bydd y ddau gyngor yn parhau'n endidau democrataidd annibynnol, a bydd gan eu haelodau'r un ystod o swyddogaethau cynrychioliadol, craffu a gweithredol ag sydd ganddynt ar hyn o bryd.

4. Nid yw'r astudiaeth hon ychwaith yn ymwneud ag un awdurdod yn dod yn gyfrifol am awdurdod arall. Mae gan y ddau gyngor eu cryfderau a'u gwendidau ac mae'r ddau'n wynebu heriau tebyg, yn ariannol ac o ran darparu gwasanaethau. Yn

hytrach, mae'r astudiaeth hon yn cydnabod gwerth posibl wynebu'r heriau hynny fel partneriaid cyfartal.

**Gwasanaethau**

5. Bydd yr astudiaeth yn ystyried y posibilrwydd o integreiddio gwasanaethau a ddarperir gan y ddau gyngor, a mynd ati i'w darparu drwy un set o drefniadau gweithredol a rheoli. Mae hynny'n cynnwys gwasanaethau corfforaethol a gwasanaethau 'cefn swyddfa' sydd yn aml yn allweddol o ran sicrhau arbedion mawr a hybu integreiddio ehangach. Yn arbennig, bydd yr astudiaeth yn ceisio pennu'r canlynol:
   a. Y gwasanaethau y gellid eu cynnwys mewn trefniadau o'r fath;
   b. Faint o arbedion effeithlonrwydd y gellid eu gwneud drwy drefniadau o'r fath, a phryd y byddai'r arbedion hynny'n digwydd;
   c. Manteision posibl trefniadau o'r fath o ran diogelu a gwella ystod ac ansawdd y gwasanaethau;
   d. Effeithiau posibl trefniadau o'r fath ar y gallu i recriwtio a chadw staff arbenigol o safon uchel, yn enwedig staff sy'n gallu gweithio yn Gymraeg;
   e. Risgiau mabwysiadu'r dull hwn ar gyfer gwasanaethau penodol ac yn gyffredinol, a sut y gellid rheoli hynny; ac
   f. Y sgil-effeithiau i'r ddau awdurdod, yn ariannol ac o ran darparu gwasanaethau, pe na baent yn mabwysiadu'r dull hwn.

**Uwch-reolwyr**

6. Mae integreiddio gwasanaethau yn llawn yn awgrymu y dylai'r goruchwylio gael ei wneud gan dîm uwch-reoli sydd wedi'i integreiddio yn yr un modd. Bydd yr astudiaeth yn ymchwilio i botensial sefydlu tîm o'r fath, ynghyd â'r costau, y manteision, y risgiau a'r goblygiadau o ran amseru.

7. Bydd yr astudiaeth hefyd yn ystyried pa mor briodol fyddai hi i'r naill awdurdod a'r llall benodi uwch-reolwr i oruchwylio'i faterion mewnol a'i drefniadau llywodraethu ei hun.

**Cyfranogi**

8. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fydd yn comisiynu ac yn ariannu'r astudiaeth, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cyfrifoldeb yr awdurdodau fydd rhoi'r argymhellion ar waith mewn ffordd gyfartal i'r ddau gytuno arni.

9. Bydd yr astudiaeth yn gofyn am farn rhanddeiliaid allweddol wrth baratoi'r canfyddiadau a'r argymhellion.

**Amserlen**

10. Bydd yr astudiaeth yn dechrau cyn gynted â phosibl, gyda'r nod o gyflwyno adroddiad i'r ddau awdurdod a Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn mis Chwefror 2011.